Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Economy, Skills and Natural Resources Group

Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau - Director of Finance & Operations

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AS
Cadeirydd Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru

16 Mawrth 2021

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Hydref 2020 yn cadarnhau'r wybodaeth atodol y gwnaethom gytuno i'w darparu yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 14 Medi 2020 ac yn amlinellu nifer o bwyntiau ychwanegol a godwyd gan yr Aelodau wrth i'r Pwyllgor ystyried y dystiolaeth ynghylch Caffael Cyhoeddus.

Dyma'r wybodaeth ychwanegol rydym wedi cytuno i'w darparu:

1. Heriau o ran cyflenwi ffrwythau a llysiau

Roedd pontio o'r UE yn achosi her sylweddol o ran cyflenwi ffrwythau a llysiau ffres. Mae timau pontio o'r UE Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio ar draws y diwydiant bwyd a diod i nodi heriau ac i gyflwyno camau lliniaru, lle bo'n bosibl. Mae'r gweinyddiaethau datganoledig hefyd yn rhan o grŵp y gadwyn cyflenwi bwyd ar gyfer y DU gyfan sydd wedi'i gadeirio gan DEFRA, yn ogystal â phrynwyr bwyd allweddol o Gymru a ddaw o Lywodraeth Cymru a GIG Cymru. Mae'r grŵp hwn yn hwyluso'r gwaith o nodi problemau yn gynnar ar lefel genedlaethol ac o rannu'r arferion gorau ledled y DU.

Mae datblygu twf cynnyrch Cymreig a'i lefelau prynu yn thema sy'n dod yn fwy a mwy amlwg o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Centre for Local Economic Strategies (CLES) ar gefnogi prosesau caffael blaengar. Mae Cyngor Caerffili, sy'n arwain y dull rhanbarthol o ddarparu bwyd ar lefel Llywodraeth Leol, yn gweithio gyda CLES, gyda chymorth pellach gan Lywodraeth Cymru, i gynyddu'r defnydd o gynnyrch lleol drwy eu cytundebau. Mae'r gwaith sydd wedi cael ei wneud hyd yma hefyd wedi gweld dull caffael newydd yn dod i'r amlwg yn y GIG, lle mae cytundebau cenedlaethol blaenorol yn cael eu dyrannu i barthau daearyddol i annog cyflenwyr yng Nghymru.

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 0300 025 8681
E-Bost/E-Mail: dean.medcraft@gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

2. Prydau Ysgol am Ddim

Mae'r ymateb i'r cwestiynau manwl am brydau ysgol am ddim wedi'i atodi yn Atodiad A.

3. Cymorth Swyddi Cymru

Mae'r wybodaeth rydych chi wedi gofyn amdani am ymestyn contractau cymorth cyflogadwyedd yn sgil proses caffael aflwyddiannus Cymorth Swyddi Cymru a'u holynwyr wedi'i hatodi yn Atodiad B.

Rwyf wedi nodi amheuon y Pwyllgor ynghylch lefel yr ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector preifat wrth gaffael PPE yn ystod y pandemig. Rwyf yn aros am ganfyddiadau fy adolygiad Archwilio Cymru gyda diddordeb, a byddaf yn ymateb i unrhyw gwestiynau sydd gennych maes o law.

Rydych hefyd wedi gofyn cwestiwn ynglŷn â'r hyn mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau cydnerthedd ac effeithiolrwydd trefniadau awdurdodau lleol rhanbarthol mewn cysylltiad â chaffael. Wrth ddatblygu ei gynllun cenedlaethol diwygiedig, mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC) wedi gweithio ochr yn ochr â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru drwy ei rhwydwaith Penaethiaid Caffael Awdurdodau Lleol, sydd wedi bod yn datblygu ei ddull rhanbarthol ei hun. Yn ogystal â rhaglen genedlaethol y GCC o 32 fframwaith, mae'r Awdurdodau Lleol wedi nodi 15 fframwaith a fydd yn cael eu cyflawni drwy ddulliau rhanbarthol neu leol.

Mae'r dull rhanbarthol yn seiliedig ar gyflawni yn Ne Ddwyrain, De Orllewin a Gogledd Cymru. Mae'r gweithgarwch yn y De Ddwyrain yn mynd rhagddo'n dda. Mae cyrff arweiniol wedi'u nodi ac yn darparu bwyd, ymgynghoriaeth adeiladu a gwasanaethau argraffu (cyfanswm o chwe fframwaith), ac mae trafodaethau'n parhau i nodi'r cwmpas a'r cyrff arweiniol i ardaloedd eraill. Cynhaliwyd gweithgarwch tebyg yn y De Orllewin ac mae Llywodraeth Cymru yn hwyluso trafodaethau pellach yn rhanbarth y Gogledd i gefnogi ei weithgarwch. Mae awdurdodau lleol llai o faint wedi cael yr opsiwn o ymuno â'r trefniadau sy'n cael eu gwneud gan eraill, ac felly byddant yn gallu manteisio ar drefniadau rhanbarthol yn yr un modd ag y maent yn defnyddio trefniadau'r GCC.

Bydd dulliau rhanbarthol yn rhannu'r arferion gorau a'r gwersi a ddysgwyd fel mater o drefn er mwyn helpu awdurdodau eraill, ac wrth i'r dull rhanbarthol ddatblygu, byddai disgwyl y byddai sefydliadau llai o faint yn cael cymorth ar gyfer mini-gystadleuaethau yn yr un modd ag y mae'r GCC yn ei ddarparu.

Mewn ymateb i'ch cwestiynau am strategaethau caffael a digidol, Datganiad Polisi Caffael newydd Cymru fydd y Strategaeth Gaffael gyffredinol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a bydd yn adlewyrchu'r amgylchedd allanol sydd ohoni. Bydd yn cynnwys manylion ar sut gall y sector cyhoeddus wneud y defnydd gorau o gaffael cyhoeddus fel hwb i gyflawni meysydd polisi trawsbynciol Llywodraeth Cymru gan gynnwys Gwerth Cymdeithasol, Caffael Cymdeithasol Gyfrifol, Datgarboneiddio ac ati, gyda pherthynas glir â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Economi Sylfaenol, gan roi pwyslais ar gaffael yn seiliedig ar leoedd.

Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru (Atodiad C) wedi bod yn destun ymgynghoriad eang ar draws y sector cyhoeddus a chaiff ei gyhoeddi yn ystod y mis.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu Strategaeth Ddigidol i Gymru ac mae'n nodi caffael fel ffactor galluogi allweddol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni polisïau ehangach, arloesi, a mabwysiadu technoleg ddigidol. Mae rhagoriaeth ym maes capasiti a chyflawni digidol yn sail hollbwysig i gyflawni gwasanaethau'n effeithiol.

Yn gywir

Dean Medcraft
Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau
Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Atodiad A

Cefnogaeth Genedlaethol ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim

1. A fyddech cystal â darparu cronoleg o hynt y trafodaethau â'r darparwr a ystyriwyd i ddarparu cefnogaeth genedlaethol i'r rheini sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim?

Dyma fanylion cronoleg y trafodaethau:

25 Mawrth 2020

- Nodi Edenred fel yr unig gyflenwr ar Fframwaith Buddion Gweithwyr y GCC.

26 Mawrth 2020

- EPS yn cadarnhau'r gofynion lefel uchel. Anfon y rhain at Edenred i'w hystyried
- Ymateb gan Edenred yn nodi strwythur y system, gan gyfeirio at gontract yr Adran Addysg.

1 Ebrill

- Anfon e-bost at Edenred yn nodi y byddai penderfyniad ar y camau nesaf yn cael ei wneud cyn bo hir, a chynnig darpar ddyddiadau gweithredu pe cytunir ar eu dewis.

8 Ebrill

- Anfon e-bost o eglurhad at Edenred ynghylch y cynnydd o ran yr archfarchnadoedd eraill a fyddai'n rhan o'r cynllun, ee Co-op ac Iceland, a map o'r manwerthwyr.
- Post at Edenred yn gofyn am gyfarfod i drafod logisteg y system – trefnwyd ar gyfer 14 Ebrill gydag EPS, y GGC ac Edenred
- EPS yn cael gwybod bod Edenred yn cael trafferth cyflawni eu rhwymedigaethau contract ar gyfer Lloegr.

9 Ebrill

- Swyddogion yn ceisio sicrwydd ynghylch gallu Edenred i gyflawni'r cynllun talebau yn sgil cyngor gan yr Adran Addysg a beirniadaeth yn y wasg o gynllun yr Adran Addysg. Ni wnaeth Edenred ar unrhyw adeg nodi na fyddent yn gallu cyflawni'r cynllun talebau ar gyfer Llywodraeth Cymru.

14 Ebrill

- Cynnal cyfarfod â swyddogion a Rheolwr Datblygu Busnes Edenred (a oedd yn arwain y cynllun talebau ar gyfer yr Adran Addysg). Edenred yn dweud bod cynllun yr Adran Addysg wedi eu herio ac wedi effeithio ar y gwasanaeth i'r graddau yr oedd yn annibynadwy, ac y byddent mewn gwell sefyllfa i gadarnhau a fyddent yn gallu cyflawni'r cynllun yng Nghymru cyn bo hir, ac na fyddent yn gallu lansio tan yr wythnos yn dechrau ar 4 Mai neu 11 Mai.
- Trafodaethau ar wahân â swyddogion yr Adran Addysg, cadarnhau'r asesiad a amlinellwyd gan Edenred.

15 Ebrill
- Paratoi Cyngor Gweinidogol i ddarparu dewisiadau ar gyfer bwrw ymlaen, ac argymhelliad i dynnu'n ôl o drafodaethau pellach ag Edenred.

16 Ebrill
- Cymeradwyaeth gweinidogol y byddai Llywodraeth Cymru, yn hytrach na datblygu cynllun talebau cenedlaethol ar gyfer prydau ysgol am ddim, yn parhau i helpu awdurdodau lleol i ddarparu atebion cymorth rhanbarthol i ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.

17 Ebrill
- Cynnal cyfarfod ag Edenred i roi gwybod iddynt na fyddem yn bwrw ymlaen â'r cynllun.

2. Hefyd, a fyddech cystal â chynnwys crynodeb o gwmpas arfaethedig y contract a throsolwg o sut gweithredwyd y broses diwydrwydd dyladwy?

2.1 Cwmpas

Y bwriad oedd datblygu'r cynllun yng Nghymru o gwmpas ateb cenedlaethol a fyddai'n rhoi hyblygrwydd i awdurdodau lleol ymateb i ofynion lleol ac i wneud yn siŵr bod y plant mwyaf agored i niwed yn cael cymorth yn y fformat mwyaf addas. Roedd hwn hefyd angen gallu nodi grwpiau ychwanegol o blant agored i niwed (fel y rhai dan 4) a allai gael eu hychwanegu i gefnogi'r frwydr yn erbyn tlodi bwyd yn ystod argyfwng Covid.

Byddai'r dull gweithredu hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol naill ai:
(a) optio i mewn i'r cynllun cenedlaethol, a fyddai'n golygu bod talebau'n cael eu hanfon i aelwydydd cymwys, gan ganiatáu i ysgolion/awdurdodau lleol nodi teuluoedd y mae angen cymorth penodol arnynt hefyd; neu
(b) parhau â'r trefniadau lleol i ddarparu talebau, taliadau uniongyrchol neu becynnau bwyd yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol.

Byddai'r cynllun wedi cael ei weithredu drwy'r llwyfan Compliments Select, a fyddai wedi golygu bod yn rhaid i weinyddwyr ym mhob ysgol fewnbynnu manylion y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau am ddim ar y Llwyfan. Byddai'r llwyfan yn gadael iddynt osod swm y daleb, telerau ei dilysrwydd, a'i chyhoeddi'n wythnosol neu'n fisol. I rieni heb ddull electronig o gyfathrebu, byddai'r gweinyddwr wedi gallu archebu talebau mewn swmp, a'u postio i'r rhiant.

2.2 Diwydrwydd Dyladwy

Roedd Edenred wedi bodloni'r gofynion cyn cymhwyso fel rhan o'u lle ar fframweithiau'r GCC a'r CCS (defnyddiwyd fframwaith CCS gan yr Adran Addysg i benodi Edenred) a fyddai wedi asesu, ymysg pethau eraill, capasiti a gallu, GDPR ac ati. Byddai asesiad manylach o ddiogelu data a chydymffurfio â safonau'r Gymraeg wedi cael ei gynnal mewn perthynas â'r llwyfan Compliments Select fel rhan o'r broses ddyfarnu ffurfiol, gyda chymalau perthnasol yn cael eu drafftio ym manyleb y gofyniad.

3 Fel rhan o hyn, allwch chi gadarnhau ar ba adeg yn y broses y nodwyd y pryderon ynglŷn â chyflawniad y cyflenwr yn Lloegr, a pha bryd rhoddodd y cyflenwr wybod i

Lywodraeth Cymru na fyddai wedi gallu darparu gwasanaeth Cymru gyfan o ddiwrnod un o bosibl?

Cafodd Llywodraeth Cymru wybod bod Edenred yn cael trafferth cyflawni eu rhwymedigaethau contract ar gyfer Lloegr ar 8 Ebrill 2020. Oherwydd y brys a oedd yn gysylltiedig â chyflawni'r gweithgarwch hwn, roedd yr ymgysylltiad ag Edenred yn datblygu'n gyflym a chawsom wybod am y pryderon yn brydlon.

Rhoddodd Edenred wybod i swyddogion ar 14 Ebrill 2020 na fyddent yn gallu lansio tan yr wythnos yn dechrau ar 4 Mai neu 11 Mai.

4 Allwch chi gadarnhau a gafodd y pryderon eu nodi'n rhagweithiol, ynteu wedi codi'n naturiol?

Cafodd y pryderon eu nodi'n rhagweithiol a'u codi yn y cyfarfodydd ar 9 Ebrill a 14 Ebrill 2020.

5 A oedd unrhyw bosibilrwydd y gallai'r contract fod wedi cael ei lofnodi heb i'r problemau hyn ddod i'r fei?

Byddai hyn wedi bod yn annhebygol iawn o ganlyniad i'r deialog rheolaidd rhwng adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru a swyddogion yr Adran Addysg, a dim ond pe bai Edenred wedi cuddio'r gwir yn eu trafodaethau â Llywodraeth Cymru. Fel y nodir uchod, roedd swyddogion wedi codi pryderon yn eu trafodaethau ag Edenred ar 9 Ebrill a 14 Ebrill. Ni waeth a fyddai'r pryderon wedi cael sylw neu eu lliniaru gan Edenred, byddai rhagor o dystiolaeth a sicrwydd ysgrifenedig wedi cael eu ceisio cyn dyfarnu contract ffurfiol.

Atodiad B
Cymorth Swyddi Cymru

1. Ymestyn contractau cymorth cyflogadwyedd yn sgil proses caffael aflwyddiannus Cymorth Swyddi Cymru.

Mae'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau a fyddai wedi cael eu darparu o dan broses caffael Cymorth Swyddi Cymru wedi parhau, heb effaith ar gyfranogwyr. Mae Cymru'n Gweithio (Gyrfa Cymru) wedi parhau i weithredu fel y man cychwyn ar gyfer yr holl gymorth cyflogadwyedd, gan gynnig cyngor ac arweiniad proffesiynol ar yrfaoedd, dadansoddi'r holl rwystrau at waith ac anghenion cymorth, nid dim ond sgiliau, yn ogystal ag atgyfeirio pobl at gymorth pellach. Fodd bynnag, nid yw'n ddelfrydol cynllunio a rheoli'r broses o bontio rhaglenni a darpariaeth cyflogadwyedd yn ystod pandemig, ac mae'n rhaid taro cydbwysedd gofalus rhwng cynnal gwasanaethau presennol i'n cwsmeriaid a chyflwyno dulliau newydd ar gyfer rhaglenni i'r dirwedd, yn enwedig gan fod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi lansio cyfres o raglenni cyflogadwyedd yn annisgwyl.

Ar hyn o bryd, mae rhaglenni cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar ateb y galw ychwanegol sy'n deillio o'r lefel uwch o ddileu swyddi yn y system, ac ar gydbwyso a lleihau risgiau COVID-19, gan ddarparu profiad cyflogadwyedd llawn ar yr un pryd. Rydym yn bwriadu parhau â'n patrwm cyflawni presennol tan 2022, gan lynu wrth y dulliau dibynadwy o ystyried yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â COVID-19 a'r angen i leihau'r risg o drosglwyddo mewn lleoliadau dysgu a chyflogaeth.

Rydym wedi ymestyn ein contractau sy'n bodoli eisoes ar gyfer y ddarpariaeth hon nes bod modd rhoi trefniadau newydd ar waith. Bydd yr elfennau o'r rhaglen sy'n cael eu hariannu gan grantiau yn parhau fel arfer.

2. Ein cynlluniau ar gyfer trefniadau olynu i wahanol garfannau (gan gynnwys yr amserlenni dan sylw).

Mae'r Tendr Comisiynu Prentisiaethau yn fyw nawr ac mae wedi cyrraedd y cam gwerthuso. Bydd contractau'n cael eu dyfarnu fis Mawrth 2021, a'r ddarpariaeth yn dechrau fis Awst 2021.

Mae swyddogion wedi bod yn ystyried y dewisiadau ar gyfer rhaglen i oedolion a bydd Cyngor Gweinidogol yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog maes o law er mwyn amlinellu'r cynigion. O ganlyniad, nid yw Gweinidogion wedi cytuno ar y camau nesaf ar gyfer y rhaglen i oedolion eto.

Ar hyn o bryd, dyma amserlen proses caffael y Rhaglen Ieuenctid (a fydd yn cael ei galw'n 'Twf Swyddi Cymru +') –

- Yr wythnos sy'n dechrau ar 2/11/2020 – cyhoeddi Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw ar GwerthwchiGymru.
- Digwyddiadau Ymgysylltu â Chyflenwyr – 25/11/2020
- Cyhoeddi tendr fis Ionawr 2021
- Dyfarnu'r Contract – Mis Medi 2021
- Contract yn Cychwyn – 1 Mawrth 2022

Atodiad C

Datganiad Polisi Caffael Cymru

Mawrth 2021

Rhagair y Gweinidog

Mae effeithiau pandemig Covid-19 ar ein heconomi, cymdeithas a'n cymunedau wedi bod yn aruthrol. A hynny'n gefndir, ynghyd â'r ansicrwydd ynghylch effeithiau tymor hir ymadawiad y DU â'r UE, rhaid inni sicrhau bod gwariant y sector cyhoeddus yn cyfrannu hyd yn oed yn fwy at ganlyniadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol positif. Ni fu erioed bwysicach bod caffael yn gynaliadwy ac effeithiol a bod nwyddau, gwasanaethau a gwaith yn cael eu darparu'n llwyddiannus.

Gall caffael cyhoeddus fod yn ganolog o ran rhoi blaenoriaethau polisi blaengar ar waith, o ddatgarboneiddio i sicrhau gwerth cymdeithasol, gwaith teg, buddiannau cymunedol, yr Economi Gylchol a'r Economi Sylfaenol. Mae'r polisïau hyn yn helpu i arafu'r newid yn yr hinsawdd, yn cynnal swyddi a hyfforddiant ac yn helpu'r mwyaf bregus.

Mae gwireddu'r uchelgeisiau hyn yn dibynnu ar broffesiwn caffael sydd â'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen i droi'n hamcanion yn realiti. Rwy'n falch o'r hyn rydym yn ei wneud gyda'n gilydd i wella sgiliau'r proffesiwn a chynyddu cyfleoedd hyfforddi.

Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru (DPCC) yn nodi gweledigaeth strategol ar gyfer trefniadau caffael y sector cyhoeddus yng Nghymru. Bydd yn ein helpu i ddiffinio'r ffordd ar gyfer gwireddu'r nodau llesiant rydym yn gweithio i'w cyflawni er lles cenedlaethau'r dyfodol, gan wneud Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ganolog i bob penderfyniad caffael, ac yn ein helpu i sicrhau'r 'Gymru a garem'. Mae gennym oll gyfrifoldeb i sicrhau'n bod yn atal problemau ac yn meddwl am y tymor hir gan gynyddu'r un pryd y cyfleoedd i sicrhau'n lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Yr allwedd i wireddu'r DPCC yw cydweithio. Byddwn yn adolygu ac yn diweddaru'r DPCC yn rheolaidd â'n partneriaid i sicrhau ei fod yn parhau i adlewyrchu'n cyd-amcanion ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru. Anelwn hefyd at sicrhau canlyniadau mwy tryloyw.

Bydd Llywodraeth Cymru'n datblygu cynllun gweithredu ar gyfer rhoi egwyddorion y Datganiad ar waith ac yn ei gyhoeddi ar ein gwefan. Rwy'n gofyn i gyrff prynu, boed ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, i ddatblygu a chyhoeddi eu cynlluniau gweithredu eu hunain fydd yn esbonio sut y byddant yn helpu i roi blaenoriaethau ar waith ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd canllawiau statudol y Bil Partneriaethau Cymdeithasol yn ystyried y Datganiad hwn a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig, gan roi dyletswydd ar awdurdodau contractio i sicrhau canlyniadau sy'n gymdeithasol gyfrifol trwy drefniadau caffael sy'n pwysleisio gwaith teg a gwerth cymdeithasol yn hytrach nag arbedion ariannol yn unig.

Gobeithio y gwnewch chi groesawu'r Datganiad hwn a gweithio gyda ni i droi'n cydweledigaeth yn realiti.

Rebecca Evans AS - Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Polisi Caffael yng Nghymru

Diben y ddogfen hon yw pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Dyma'r weledigaeth:

"Mae caffael y sector cyhoeddus yng Nghymru yn ddull pwerus o sicrhau newid parhaus i gyflawni canlyniadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwyllianol er lles Cymru."

Egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru

Bydd sector cyhoeddus Cymru yn dilyn deg egwyddor ar gyfer caffael llesiant i Gymru yn seiliedig ar Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru

1. Byddwn yn ysgogi gweithgarwch caffael **cydweithredol** yng Nghymru i sicrhau y canlyniadau cynaliadwy a hirdymor mwyaf posibl o ran gwerth cymdeithasol ac economaidd a all ddeillio o wariant cyhoeddus

2. Byddwn yn rhoi caffael **wrth wraidd** y gwaith o ddatblygu a gweithredu polisi yng Nghymru

3. Byddwn yn datblygu caffael cynaliadwy **hirdymor**, sy'n adeiladu ar arfer gorau ac yn ei raddio ac yn pennu camau clir sy'n dangos sut y mae caffael yn cefnogi y broses o gyflawni amcanion llesiant sefydliadol

4. Byddwn yn codi statws a phroffil y proffesiwn caffael yn yr **hirdymor** a'i rôl fel galluogwr ar gyfer polisi caffael

5. Byddwn yn cefnogi amcanion polisi Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â chaffael blaengar, megis yr Economi Sylfaenol a Chylchol, drwy weithgarwch caffael **cydweithredol**, sy'n seiliedig ar leoedd (boed yn genedlaethol, yn rhanbarthol neu'n lleol) sy'n meithrin cadwyni cyflenwi lleol gwydn

6. Byddwn yn gweithredu i **atal** y pryderon cynyddol dros newid hinsawdd drwy flaenoriaethu lleihau carbon ac allyriadau sero drwy gaffael mwy cyfrifol a chynaliadwy er mwyn cyflawni ein huchelgais ar gyfer sector cyhoeddus sero net yng Nghymru ar erbyn 2030

7. Byddwn yn cysoni ein ffyrdd o weithio ac yn cynyddu **cyfranogiad** rhanddeiliaid i gefnogi atebion arloesol a chynaliadwy drwy gaffael

8. Byddwn yn **cydweithio** â rhanddeiliaid i hyrwyddo cyfle cyfartal a Gwaith Teg yng Nghymru

9. Byddwn yn gwella y dull o **integreiddio** a hefyd brofiadau defnyddwyr o'n hatebion a'n cymwysiadau digidol er mwyn sicrhau'r defnydd gorau posibl o'n data am gaffael at ddiben hwyluso penderfyniadau

10. Byddwn yn hyrwyddo caffael sy'n seiliedig ar werth sy'n sicrhau'r canlyniadau **hirdymor** gorau posibl i Gymru.